



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Food
Standards
Agency

Galwad am Dystiolaeth

Adolygiad o lechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd

Tachwedd 2012



*Review of the
Balance of Competences*

Cynnwys

Rhagarweiniad	3
Galwad am dystiolaeth	4
Beth yw cymhwysedd?	4
Datganoli	5
Adolygiad o Iechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd.....	5
Adran A: Iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid.....	8
Adran B: Diogelwch bwyd (gan gynnwys diogelwch porthiant), labelu, ansawdd bwyd a safonau cyfansoddiadol.....	12
Galwad am dystiolaeth – rhestr gyflawn o gwestiynau.....	17
Cwestiynau mewn perthynas ag adran A: Iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid.....	17
ATODIAD CYFREITHIOL.....	19
RHAN A: IECHYD A LLES ANIFEILIAID	22
RHAN B: CYFRAITH BWYD:	26

GALWAD AM DYSTIOLAETH AR ADOLYGIAD Y LLYWODRAETH O GYDBWYSEDD Y CYMWYSEDDAU RHWNG Y DEYRNAS UNEDIG A'R UNDEB EWROPEAIDD

Adolygiad o Iechyd Anifeiliaid, Lles a Diogelwch Bwyd

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Dyddiad cau: 28 Chwefror 2013

Rhagarweiniad

1. Mae'r adolygiad hwn yn rhan o ymrwymiad Cynghrair i ystyried cydbwysedd cymwyseddau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Bydd yr adolygiad yn dadansoddi'r hyn y mae aelodaeth â'r UE yn ei olygu mewn perthynas â buddiant cenedlaethol y DU. Ei nod yw dwysau dealltwriaeth y cyhoedd a'r Senedd o natur ein haelodaeth â'r UE a bod yn gyfraniad adeiladol a difrifol at y drafodaeth Ewropeaidd genedlaethol ac ehangach ynghylch moderneiddio, diwygio a gwella'r UE yn wyneb heriau cyfunol. Nid ein gorchwyl ni yw gwneud argymhellion penodol nac ystyried modelau amgen ar gyfer perthynas y DU â'r UE yn gyffredinol.
2. Caiff yr adolygiad ei rannu'n gyfres o adroddiadau ar feysydd penodol o gymhwysedd yn yr UE, wedi'i ledaenu dros bedwar semester rhwng hydref 2012 a hydref 2014. Caiff yr adolygiad ei arwain gan Lywodraeth y DU ond bydd hefyd yn cynnwys arbenigwyr anllywodraethol, sefydliadau ac unigolion eraill sydd am rannu eu sylwadau. Caiff llywodraethau tramor, gan gynnwys ein partneriaid o'r UE a sefydliadau yn yr UE, eu gwahodd i gyfrannu hefyd.
3. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), ar y cyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn arwain yr adolygiad hwn o iechyd a lles anifeiliaid a diogelwch bwyd.¹ Gyda'i gilydd, mae Defra a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflawni rôl ganolog o ran sicrhau'r safonau uchaf o iechyd a lles anifeiliaid a diogelwch bwyd, nid yn unig ar gyfer defnyddwyr yn y DU, ond hefyd i feithrin masnach hollbwysig gyda Gwladwriaethau sy'n Aelodau o'r UE a'r byd y tu hwnt. Mae Prydain yn arwain y byd o ran ei phryder am iechyd a lles anifeiliaid a, thrwy waith Defra, rydym yn ymdrechu i leihau dioddefaint anifeiliaid lle bynnag bo'n bosibl ac i hyrwyddo safonau uchel o les ledled Ewrop. Yn allweddol i hyn y mae

¹ Mae 'bwyd' yn cynnwys diodydd, gan gynnwys dŵr potel.

sicrhau bod gennym y safonau cywir ar waith i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i fygythiadau afiechyd ymhlith anifeiliaid. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gweithio i sicrhau diogelwch y bwyd rydym yn ei fwyta, ac mae'n cyflawni rôl bwysig o ran sicrhau ansawdd ac enw da'r cynhyrchion bwyd rydym yn eu hallforio.

Galwad am dystiolaeth

4. Mae'r alwad gyhoeddus hon am dystiolaeth yn amlinellu cwrpas yr adolygiad o gydbwysedd cymhwyseddau ym mhob maes iechyd anifeiliaid, lles anifeiliaid, diogelwch bwyd, diogelwch bwyd anifeiliaid, labelu ac ansawdd bwyd a safonau cyfansoddiadol. Rydym yn gwahodd cyfraniadau gan unrhyw un â gwybodaeth, arbenigedd neu brofiad perthnasol.

Anfonwch eich dystiolaeth i

balanceofcompetences.ahwfs@defra.gsi.gov.uk erbyn 28 Chwefror 2013.

Dylech ddefnyddio'r un cyfeiriad e-bost ar gyfer unrhyw ymholiadau cysylltiedig.

5. Dylai eich dystiolaeth fod yn wrthrychol, yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol am ganlyniad neu effaith y cymhwysedd yn eich maes arbenigedd chi. Byddwn yn disgwyl i allu gwneud eich ymateb ac enw eich sefydliad ar gael oni fyddwch yn gofyn i ni am beidio â gwneud hynny (ond sylwer, hyd yn oed os gofynnwch i ni gadw eich cyfraniad yn gyfrinachol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni ei ryddhau mewn ymateb i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth). Ni fyddwn yn cyhoeddi eich enw oni bai eich bod yn dymuno iddo gael ei gynnwys. Seiliwch eich ymateb ar y cwestiynau a restrir ar dudalen 16 ac amlygwch y maes/meysydd pwnc (e.e. iechyd anifeiliaid, lles anifeiliaid, diogelwch bwyd, labelu ac ati) rydych yn cyfeirio atynt.

Beth yw cymhwysedd?

At ddibenion yr adolygiad hwn, rydym yn defnyddio diffiniad eang o gymhwysedd. O'i roi'n syml, mae cymhwysedd yn y cyd-destun hwn yn ymwneud â phopeth sy'n deillio o gyfraith yr UE sy'n effeithio ar yr hyn sy'n digwydd yn y DU. Mae hynny'n golygu archwilio pob maes lle mae'r Cytuniadau yn rhoi cymhwysedd i'r UE weithredu, gan gynnwys darpariaethau yn y Cytuniadau sy'n rhoi'r pŵer i sefydliadau yn yr UE ddeddfu, i fabwysiadu deddfau aneddfwriaethol, neu i gymryd unrhyw gamau gweithredu eraill. Ond mae hefyd yn golygu archwilio meysydd lle mae'r Cytuniadau yn uniongyrchol berthnasol i'r Aelod-wladwriaethau heb fod angen i sefydliadau yn yr UE gymryd camau gweithredu pellach.

Amlinellir cymhwyseddau'r UE yng Nghytuniadau'r UE, sy'n cynnig sail i unrhyw gamau gweithredu y mae'r sefydliadau yn yr UE yn eu cymryd. Gall yr UE weithredu o fewn cyfyngiadau'r cymhwyseddau a gyflwynir iddi gan y Cytuniadau,

a lle nad yw'r Cytuniadau yn cyflwyno cymwyseddau ar yr UE, mae'r Aelod-wladwriaethau yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt.

Mae mathau gwahanol o gymhwysedd: neilltuedig, a rennir ac ategol. Dim ond yr UE sy'n gall gweithredu mewn meysydd lle mae ganddi gymhwysedd neilltuedig, megis yr undeb tollau a pholisi masnachol cyffredin. Ym meysydd cymhwysedd a rennir, megis y farchnad unigol, amgylchedd ac ynni, gall naill ai'r UE neu'r Aelod-wladwriaethau weithredu, ond efallai y caiff yr Aelod-wladwriaethau eu hatal rhag gweithredu wedi i'r UE wedi hynny. Ym meysydd cymhwysedd ategol, megis diwylliant, twristiaeth ac addysg, gall yr UE a'r Aelod-wladwriaethau weithredu, ond nid yw camau gweithredu a gymerir gan yr UE yn atal Aelod-wladwriaethau rhag cymryd eu camau gweithredu eu hunain.

Mae'n rhaid i'r UE weithredu yn unol â hawliau sylfaenol fel y'u hamlinellir yn y Siarter Hawliau Sylfaenol (megis rhyddid mynegiant a pheidio â gwahaniaethu) ac ag egwyddorion cymesuredd a sybsidiaredd. Yn unol ag egwyddor sybsidiaredd, lle nad oes gan yr UE gymhwysedd neilltuedig, dim ond os yw mewn sefyllfa well na'r Aelod-wladwriaethau i weithredu y gall wneud hynny oherwydd maint neu effeithiau'r camau gweithredu arfaethedig. Yn unol ag egwyddor cymesuredd, ni chaiff cynnwys a ffurf camau gweithredu a gymerir gan yr UE fod yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni amcanion cytuniadau'r UE.

Datganoli

6. Mae'r adolygiad o gydbwysedd y cymwyseddau yn fenter gan Lywodraeth y DU a chyfeirir yr alwad hon am dystiolaeth at bob parti â buddiant ledled y DU. Bydd sylwadau'r rheiny yn y gweinyddiaethau datganoledig yn ffactor bwysig; dylid ystyried y materion yng ngoleuni buddiannau gorau'r DU gyfan, ond mae'r meysydd pwnc a gwmpesir gan yr Adolygiad o lechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd yn faterion datganoledig lle mae'r gweinyddiaethau yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am roi deddfwriaeth yr UE ar waith.

Adolygiad o lechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd

7. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y materion sy'n gysylltiedig ag amddiffyn iechyd anifeiliaid, lles anifeiliaid a diogelwch bwyd. Mae cynnal marchnad fewnol gadarn a chaniatáu digonedd o ddewis cenedlaethol a lleol, o ran materion megis sut i ymdrin â risg, yn creu rhai heriau a thensiynau.
8. Mae cynhyrchion amaethyddol a bwyd yn sectorau lle mae masnach yn yr UE yn creu manteision sylweddol ar gyfer defnyddwyr a chynhyrchwyr yn y DU ac mae'n sicrhau system fwyd fwy cadarn ar gyfer y DU. Fodd bynnag, mae cymhwyso rheolau teg i'r fasnach honno ar lefel yr UE yn creu tensiynau hefyd. Gallai dewisiadau cenedlaethol neu ranbarthol o ran risg (pa lefel o ragofalon

ddylai fod yn berthnasol i reolau ar fwyd, neu i glefydau anifeiliaid sydd â'r potensial o effeithio ar bobl?), trin anifeiliaid (pa amodau cynhyrchu sy'n dderbyniol o ran bwyd a werthir i'n defnyddwyr?) neu wybodaeth i ddefnyddwyr (pa labelu ddylai fod yn ofynnol ar fwyd?) arwain at fabwysiadu ymagweddau gwahanol, ac at reolau sydd – yn fwriadol neu'n anfwriadol – yn llesteirio masnach. Mae pennu safonau cyffredin ar lefel yr UE yn un ffordd o osgoi hyn yn ogystal ag amddiffyn iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n gysylltiedig â'r fasnach bwyd a phorthiant. Cwestiwn allweddol ar gyfer yr adolygiad hwn fydd p'un a fydd y manteision i'r DU sy'n deillio o amddiffyn defnyddwyr a gweithrediad y farchnad fewnol yn cyfiawnhau'r lefel uchel o gymhwysedd yr UE yn hyn o beth.

9. Mewn rhai meysydd, mae deddfwriaeth yr UE wedi dilyn ymagwedd a ddatblygwyd yn y DU; o ran lles anifeiliaid er enghraifft, rheolau ar gynhyrchu wyau neu gynhyrchu moch gan fanteisio i raddau helaeth ar brofiad yn y DU wedi'u cymhwyso ar lefel yr UE. Yn yr achosion hyn, dylai cymhwyso'r rheolau hynny'n effeithiol ar draws gweddill yr UE atal cynhyrchwyr yn y DU rhag bod o dan anfantais drwy gymhwyso safonau anos eu cyrraedd yn y DU. Mewn meysydd eraill, gallai fod gan deddfwriaeth yn yr UE gysylltiad llai amlwg â dewisiadau cymdeithasol yn y DU. Hyd yn oed mewn rhai meysydd lle mae rhesymeg glir dros gymryd camau gweithredu ar lefel y DU, gallai'r broses o benderfynu (gan gynnwys awydd i ystyried blaenoriaethau gwahanol) arwain at ymagweddau sy'n ymddangos yn fwy cymhleth neu'n fwy o faich nag y mae angen iddynt fod.
10. Bydd yr adolygiad hwn yn cysylltu â nifer o adolygiadau a arweinir gan adrannau eraill y Llywodraeth. Caiff canfyddiadau a thystiolaeth o'n hadolygiad eu rhannu gyda'r timau sy'n arwain yr adolygiadau cysylltiedig hyn fel bo'n briodol. Efallai y bydd gennych ddi-ddordeb yn yr adolygiadau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Adolygiad o Iechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd, sef:
 - **Iechyd**, dan arweiniad yr Adran Iechyd (semester 1). Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys cymhwysedd mewn perthynas â maeth a labelu maeth, atchwanegiadau bwyd, bwydydd cyfnerthedig, alcohol mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd a bwyd at ddefnyddiau maethlon penodol, megis fformiwla babanod.
 - **Crynodeb o'r Farchnad Fewnol**, dan arweiniad yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (semester 1). Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys trafod Erthygl 114 y Cytuniad ar Weithrediad Undod Ewropeaidd, y seiliwyd llawer o'r deddfwriaeth a gwmpesir yn yr Adolygiad o Iechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd arni.
 - **Amgylchedd**, dan arweiniad Defra (semester 2). Caiff yr adolygiad hwn ei lansio yng ngwanwyn 2013 a bydd yn cwmpasu deddfwriaeth yn ymwneud â bywyd gwyllt yn gyffredinol, megis amddiffyn rhywogaethau, cynefinoedd a

bioamrywiaeth. Er bod yr Adolygiad o Iechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd yn cwmpasu bwyd a addaswyd yn enetig a diogelwch porthiant gan gynnwys labelu, bydd yr Adolygiad o'r Amgylchedd yn ystyried diogelwch amgylcheddol organebau a addaswyd yn enetig, gan gynnwys agweddau ehangach ar iechyd y cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried risg mewn perthynas â threialon maes a masnacheiddio.

- **Amaethyddiaeth**, dan arweiniad Defra (semester 3). Caiff yr adolygiad hwn ei lansio yn hydref 2013 a bydd yn cwmpasu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn gyffredinol, gyda gorgyffwrdd â'r Adolygiad o'r Farchnad Fewnol. Fodd bynnag, caiff unrhyw drafodaeth yn ymwneud ag iechyd a lles da byw ei chynnal o dan yr Adolygiad o Iechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd. Bydd yr Adolygiad Amaethyddiaeth hefyd yn cwmpasu iechyd planhigion, lledaenu hadau a marchnata. Bydd yr Adolygiad o Iechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd hefyd yn ymdrin â bwyd planhigion i'r graddau fel eu bod yn ymwneud â diogelwch porthiant anifeiliaid lle mae'r pwyslais ar amddiffyn y gadwyn fwyd ddynol.

11. Bydd gan yr Adolygiad o Iechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd gysylltiadau a dibyniadau hefyd ag adolygiadau eraill mewn perthynas â materion megis; cynrychiolaeth allanol mewn sefydliadau rhyngwladol, h.y. Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (Adolygiad **Polisi Tramor**, semester 1); Cytuniadau Masnach Rydd yn yr UE a thrydedd wledydd yr UE (Adolygiad **Masnach a Buddsoddiadau**, semester 2) a phrofion anifeiliaid (Adolygiad **Ymchwil a Datblygu**, semester 2). Fodd bynnag, bydd yr Adolygiad o Iechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd yn trafod lles anifeiliaid a ddefnyddir mewn profion gwyddonol. I gael rhagor o fanylion am bob adolygiad, ewch i wefan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn: www.fco.gov.uk/en/global-issues/european-union/balance-of-competences-review
12. 12. Caiff yr Adolygiad o Iechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd ei seilio ar bynciau yn hytrach na chanolbwyntio ar Erthygl Gytuniad benodol. Caiff yr alwad hon am dystiolaeth ei rhannu'n ddwy adran:

Adran A: Iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid

Adran B: Diogelwch bwyd, gan gynnwys diogelwch bwyd, labelu bwyd, ansawdd a safonau cyfansoddiadol.

Ffeithiau a ffigurau am da byw^a

Y sector eidion a llaeth

Mae ychydig o dan 10 miliwn o fuchesau o wartheg yn y DU, gan gynnwys 1.7 miliwn o fuchod eidion. Yn 2011, cynhyrchodd y DU 931,000 o dunelli o gig eidion a chig llo, sy'n golygu mai hi yw'r pedwerydd cynhyrhydd mwyaf yn yr UE, yn cyfrif am 8% o gynhyrchiant yr UE. Yn 2011, mewnfiorodd y DU 235,000 o dunelli o gig eidion a chig llo gwerth £437m. Mae rhan fwyaf y fasnach â gwledydd eraill yn yr UE – daw bron i 90% o'r holl gynhyrchion a fewnforio o Ewrop ac aiff 96% o'r holl gynhyrchion a allforio o'r DU i Ewrop. Yn 2011, cynhyrchodd y diwydiant llaeth 13.6 biliwn o litrau o laeth,^b sy'n cyfrif am 16% o grynsyth allbwn amaethyddol yn y DU fesul gwerth ac sy'n golygu mai'r diwydiant yw'r sector amaethyddol unigol mwyaf o ran gwerth ar £3.7bn.

Y sector defaid

Mae 31.6 miliwn o heidiau o ddefaid yn y DU erbyn hyn, gan gynnwys 14.9 miliwn yn yr haid fridio fenywaidd. Y DU yw'r cynhyrhydd mwyaf o ran cig defaid yn yr UE gan gyfrif am chwarter o niferoedd defaid yn yr UE. Yn 2011, cynyddodd cynhyrchu cig dafad a chig oen yn y DU i 301,000 o dunelli ac roedd yn cyfrif am 5% o grynsyth allbwn amaethyddol yn y DU. Daw rhyw 85% o gig sgerbwd a thoriadau o Awstralia a Seland Newydd er bod dros 90% o allforion o'r DU yn mynd i wledydd yn yr UE. Yn 2011, mewnfiorodd y DU 88,000 o dunelli o gig dafad a chig oen gwerth £412m ac allforiodd 96,000 o dunelli gwerth £374m.

Y sector moch

Ym mis Rhagfyr 2011, maint cenfaint moch yn y DU oedd 4.3 miliwn o foch. Yn 2011, cynhyrchodd y DU 759,000 o dunelli o gig moch gyda gwerth yr allgynnyrch (o gynhyrchu cig moch, yn bennaf) yn codi i £1.1bn. Daw bron i bob mewnforyn o Ewrop ac aiff tri chwarter o allforion yn y DU i Ewrop. Yn 2011, mewnfiorodd y DU 373,000 o dunelli o gig moch gwerth £724m ac allforiodd 144,000 o dunelli gwerth £171m.

^a Daw pob ffigur o Dîm Ystadegau Da Byw Defra, SLMLF – Medi 2012

^b Amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig, 2011. Ar gael yn: www.defra.gov.uk/statistics/files/defra-stats-foodfarm-crosscutting-uk-uk2011-120709.pdf

Adran A: Iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid

13. Mae iechyd anifeiliaid yn ymwneud ag atal lledaenu clefydau ymhlith anifeiliaid. Mae lles anifeiliaid yn ymwneud â sicrhau lles anifeiliaid a'u trin yn drugarog. Mae gorgyffwrdd rhwng y ddau fater hyn gan y gall clefydau effeithio'n andwyol ar les anifeiliaid a gallai rheoli eu lles yn wael eu gwneud yn fwy agored i afiechydon. Gall rhai clefydau anifeiliaid gael eu trosglwyddo i bobl, ac felly, gall materion yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid fod â goblygiadau o ran iechyd pobl. Yn ogystal, mae gan ddefnyddio meddyginiaethau milfeddygol a bwydydd meddyginiaethol gysylltiad uniongyrchol â lles anifeiliaid, a gall gweddillion milfeddygol ymhlith da byw gael effaith ar iechyd pobl hefyd.

• Cwestiwn: Pa dystiolaeth sy'n bodoli bod gweithredu gan yr UE mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid yn fuddiol neu'n anfuddiol i'r DU?

14. Prif Erthyglau'r Cytuniad y gwnaed deddfwriaeth yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid yn unol â nhw yw'r rhai a elwir yn Erthygl 43 (mesurau polisi amaethyddol cyffredin) ac Erthygl 114 (mesurau'r farchnad fewnol) y Cytuniad ar Weithrediad Undod Ewropeaidd. Yn gyffredinol, mae mesurau iechyd a lles anifeiliaid yn feysydd cymhwysedd a rennir, sy'n dod o dan benawdau 'marchnad fewnol' ac 'amaethyddiaeth a physgodfeydd'. Mae hyn yn golygu, i'r graddau y mae'r UE wedi gweithredu deddfwriaeth yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, nad oes gan y DU gymhwysedd i weithredu ac eithrio yn unol â'r ddeddfwriaeth honno. I'r graddau y gall iechyd anifeiliaid fod â goblygiadau o ran iechyd dynol, mae gan yr UE gymhwysedd

Y sector dofednod^a

Cyfanswm nifer yr ieir a dofednod bwrdd eraill yw rhyw 100 miliwn o adar. Yn 2011, cynhyrchwyd 1.6 miliwn o dunelli o gig dofednod, gwerth £1.9bn. Gwerth wyau i bobl eu bwyta oedd rhyw £550m, gyda chynhyrchiant o 9.85 biliwn o wyau. Mae bron i'r holl fasnachu'n digwydd gyda gwledydd eraill yn yr UE, a daw bron i bob mewnforyn o Ewrop ac aiff rhyw ddau draean o allforion yn y DU i Ewrop. Yn 2011, mewnforiodd y DU 412,000 o dunelli o gig dofednod gwerth £1,079m ac allforiodd 295,000 o dunelli gwerth £307m. Mewnforiodd y DU 68,000 o dunelli o gynhyrchion wy cyflawn a chynhyrchion wy gwerth £130m ac allforiodd 17,000 o dunelli gwerth £48m. Mae bron i'r holl fasnachu'n digwydd gyda gwledydd yn yr UE.

Ffeithiau a ffigurau am iechyd a lles anifeiliaid^c

Mae'r UE yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth gynnal prosesau arolygu ar gyfer mathau o encephalopathi sbwngffurf trosglwyddadwy (TSE). Yn 2011, cafodd 645,960 o wartheg eu profi am Encephalopathi Sbwngffurf Gwartheg (BSE) ledled y DU, a chafodd 21,326 o ddefaid a geifr eu profi am glefyd y crafu. Cafodd 1,249 o ddefaid a geifr pellach eu profi am glefyd y crafu o dan Gynllun Gorfodol yr UE ar gyfer Heidiau â Chlefyd y Crafu.

Rhwng mis Ionawr 2007 a mis Rhagfyr 2009, cafodd 1,203 o geirw eu profi am TSE ledled y DU. Mae data dros dro ar gyfer 2011 yn dangos mai nifer y gwartheg a brofwyd am Dwbercwlosis mewn Gwartheg (TB) ym Mhrydain Fawr yw 7,578,945, a phrofwyd 777,600 pellach yng ngogledd Iwerddon.

Yn 2011, cafodd 1,739 o ffermydd unigol archwiliad lles gan Asiantaeth y Labordai Milfeddygol Iechyd Anifeiliaid^d. Yn 2010, nifer y ffermydd a archwiliwyd oedd 2,099.

^c Mae ystadegau ar gael yn:

www.defra.gov.uk/statistics/foodfarm/landuslive/stock/animal-disease-statistics/

^d Mae ystadegau ar gael yn:

www.defra.gov.uk/statistics/foodfarm/landuslive/stock/welfare/

ategol a chaiff gydlynu neu ychwanegu at weithredoedd yr Aelod-wladwriaethau. Mae rhagor o wybodaeth am y materion hyn ar gael yn rhan A yr atodiad cyfreithiol.

- **Cwestiwn: Sut y gellid bodloni'r buddiant cenedlaethol drwy weithredu ar iechyd a lles anifeiliaid e.e. ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, yn ogystal â gweithredu ar lefel yr UE neu fel dewis amgen i hynny?**

Cwestiwn: Sut y gallai'r DU elwa ar yr UE yn gweithredu'n fwy neu'n llai ar iechyd a lles anifeiliaid yn y dyfodol?

15. Mae gan yr UE gymhwysedd neilltuedig ym meysydd yr undeb tollau a'r polisi masnachol cyffredin. Felly nid oes gan y DU gymhwysedd i weithredu mewn perthynas â masnachu â thrydedd gwledydd, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid sy'n gysylltiedig â'r fasnach honno.

- **Cwestiwn: Pa fanteision neu anfanteision a allai godi pe bai gan yr UE gymhwysedd neilltuedig o ran trafod cytundebau masnach gyda thrydydd gwledydd?**

16. Cyflwynwyd cyfres o Gyfarwyddebau a Rheoliadau yn yr UE yn cwmpasu materion megis atal a rheoli clefydau (e.e. clwy'r traed a'r genau, twymyn cyffredin y moch, salmonela, y gynddaredd a chlefyd ceffylau Affricanaidd), mewnforion a masnach yr UE ar gyfer anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid (e.e. cig, mêl), lles anifeiliaid fferm (e.e. ar adeg eu cludo) a lles anifeiliaid eraill (e.e. gwenyn), meddyginiaethau milfeddygol (e.e. brechlynnau) a bwyd anifeiliaid meddyginiaethol. Mewn perthynas â lles anifeiliaid, mae cwmpas gweithredu gan yr UE wedi ymestyn o bryder i sicrhau cyfle cyfartal o ran cystadleuaeth mewn

perthynas â masnachu anifeiliaid fferm, i ddiddordeb ehangach yn lles pob anifail.

Cwestiwn: A yw deddfwriaeth yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid yn cynnig y cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd a buddiannau busnesau yn y DU?

17. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig cyflwyno Cyfraith Iechyd Anifeiliaid newydd ar gyfer yr UE sydd â'r bwriad o osod sail gyfreithiol i bolisi iechyd anifeiliaid cyffredin ar gyfer yr UE a fframwaith rheoleiddio unigol ar gyfer iechyd anifeiliaid. Disgwylir cyhoeddi cynnig mabwysiedig ffurfiol erbyn gwanwyn 2013. Ym mis Ionawr 2012, cyhoeddodd y Comisiwn strategaeth newydd ar gyfer amddiffyn a lles anifeiliaid yr UE sy'n cynnwys ystyried creu fframwaith deddfwriaethol cyfnerthedig ar gyfer yr UE a gweithredu gwell i sicrhau bod Aelod-wladwriaethau'n cydymffurfio â rheolau ynghylch lles anifeiliaid yn yr UE.²

Cwestiwn: a ellid gweithredu mewn ffordd wahanol e.e. a oes ffyrdd o wella cyfraith yr UE mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid, er enghraifft, i ganolbwyntio'n agosach ar ganlyniadau angenrheidiol gan ddefnyddio ymagwedd sydd wedi'i seilio'n fwy ar dystiolaeth a risgiau? A fyddai hyn yn cyflawni mwy er mwyn buddiant cenedlaethol?

18. Mae gwefan Defra yn darparu arweiniad cyffredinol ar les anifeiliaid, yn ogystal â rheoliadau penodol mewn perthynas â lles anifeiliaid adeg eu cludo, ar y fferm, adeg eu lladd ac yn y farchnad, yn ogystal â chyingor ar dywydd garw.³ Mae'r brif ddeddfwriaeth mewn perthynas â lles anifeiliaid yn ei gwneud yn ofynnol i berchenogion sicrhau bod gan anifeiliaid ddeiet ac amgylchedd addas; bod yr anifeiliaid yn dangos patrymau ymddygiad arferol; eu bod wedi'u cadw ar wahân i anifeiliaid eraill neu gyda nhw a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag poen, anaf, dioddefaint a chlefyd.

Cwestiwn: Pa heriau neu gyfleoedd a allem eu hwynebu yn y dyfodol ym maes cyfraith bwyd a pha effaith y gallai'r rhain ei chael ar fuddiant y genedl?

Cwestiwn: pa effaith y gallai ehangu'r UE yn y dyfodol ei chael ar iechyd a lles anifeiliaid?

Cwestiwn: a oes unrhyw bwyntiau cyffredinol rydych yn dymuno eu gwneud nas soniwyd amdanynt uchod?

19. Mae rhan A yr atodiad cyfreithiol yn amlinellu'n fanylach sut mae cymhwysedd wedi datblygu o ran iechyd a lles anifeiliaid, yn ogystal â dangos lle mae mesurau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol. Isod mae dwy astudiaeth achos yn dangos meysydd lle mae gan yr UE gymhwysedd gwahanol ar iechyd a lles anifeiliaid:

² http://ec.europa.eu/food/animal/welfare/actionplan/actionplan_en.htm

³ www.defra.gov.uk/food-farm/animals/welfare/

Dim cymhwysedd ar gyfer yr UE: Lles anifeiliaid gwyllt

Mae rheolau'r UE ar les anifeiliaid a ystyrir yn yr alwad hon am dystiolaeth yn berthnasol i drin anifeiliaid fferm neu anifeiliaid caeth, nid i anifeiliaid yn y gwyllt. Mae hyn gan nad yw'r Cytuniadau yn cyflwyno cymhwysedd ar yr UE i weithredu mewn perthynas â lles anifeiliaid ac eithrio lle mae'n berthnasol i feysydd cymhwysedd a rennir megis y farchnad fewnol, amaethyddiaeth a physgodfeydd a'r amgylchedd (Erthygl 4(2) TFEU).

Felly mae Aelod-wladwriaethau yn cadw'r cymhwysedd i ddeddfu ar les anifeiliaid gwyllt yn ogystal ag ar bynciau penodol yn ymwneud ag amddiffyn anifeiliaid (e.e. defnyddio anifeiliaid mewn cystadlaethau, sioeau, digwyddiadau diwylliannol neu ddigwyddiadau chwaraeon a rheoli cŵn coll). Enghraifft o'r deddfwriaeth hon yng Nghymru a Lloegr yw Deddf Hela 2004, sy'n gwahardd hela mamaliaid gwyllt gyda chŵn, ac eithrio lle y gwneir hynny yn unol ag amodau eithriad, a phob digwyddiad hela ysgyfarnogod. Nid oes unrhyw elfen yr UE yn y Ddeddf.

Mae'r UE wedi deddfu i amddiffyn rhai rhywogaethau o anifeiliaid gwyllt (yn hytrach nag amddiffyn lles anifeiliaid gwyllt unigol) drwy ddeddfau megis y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC) a'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt (2009/147/EC) a wnaed o dan ddarpariaethau'r Cytuniad mewn perthynas â'r amgylchedd (Erthygl 192 TFEU). Caiff yr amddiffyniadau hyn eu hystyried yn yr alwad arfaethedig am dystiolaeth mewn perthynas â'r amgylchedd.

Cymhwysedd ar gyfer y UE: Clwy'r Traed a'r Genau

Y deddfwriaeth gyntaf ar lefel yr UE a oedd yn ymdrin yn benodol â mynd i'r afael â chlwy'r traed a'r genau oedd Cyfarwyddeb Cyngor 85/511/EEC yn cyflwyno mesurau Cymunedol ar gyfer rheoli clwy'r traed a'r genau. Roedd hon yn amlinellu'r mesurau rheoli gofynnol i Aelod-wladwriaethau eu cymhwyso os oedd achosion o glwy'r traed a'r genau yn codi, gan gynnwys mesurau ar gyfer profi, gosod cyfyngiadau symud, lladd anifeiliaid heintiedig ac awdurdodau cenedlaethol yn defnyddio brechlynnau. Fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach gan Gyfarwyddeb Cyngor 90/423/EEC i wahardd defnyddio brechlynnau clwy'r traed a'r genau ac eithrio mewn achosion brys. Daeth gwaharddiad yr UE ar ddefnyddio brechlynnau yn dilyn astudiaeth Comisiwn a ddaeth i'r casgliad y gallai fod gan bolisi brechu'r UE oblygiadau ar gyfer masnach yn yr UE gyda thrydedd gwledydd yn unol â rheolau Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd.

Yn 2001, gosododd awdurdodau yn y DU reolau ar gyfer clwy'r traed a'r genau gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 1981 a oedd yn dyddio cyn cyflwyno deddfwriaeth ar lefel yr UE. Gosodwyd cyfyngiadau mawr ar farchnata a symud anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid yn y DU gan y Comisiwn, a awdurdododd ddefnyddio brechlynnau brys ar gyfer gwartheg yn Cumbria a Dyfnaint ac ar gyfer anifeiliaid prin neu anifeiliaid mewn perygl. Serch hynny, ni ddefnyddiwyd brechlynnau yn erbyn clwy'r traed a'r genau yn y DU.

Yng ngoleuni profiad achosion o glwy'r traed a'r genau yn 2001, cafodd deddfwriaeth yr UE a'r DU ar gyfer clwy'r traed a'r genau ei diwygio. Yn y DU, atgyfnerthwyd y pwerau yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 1981 gan ddiwygiadau a wnaed yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 2002, sydd ymhlith pethau eraill yn gosod dyletswydd i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried brechlynnau a sefydlu sail gyfreithiol eglur ar gyfer lladd anifeiliaid a frechwyd. Ar lefel yr UE, mae Cyfarwyddeb Cyngor 2003/85/EC wedi cyflwyno gweithdrefnau gwell i Aelod-wladwriaethau ddefnyddio brechlynnau brys er mwyn rheoli achosion o glwy'r traed a'r genau yn eu tiriogaethau.

Adran B: Diogelwch bwyd (gan gynnwys diogelwch porthiant), labelu, ansawdd bwyd a safonau cyfansoddiadol

20. Mae corff sylweddol o ddeddfwriaeth Ewropeaidd o ran diogelwch bwyd a phorthiant a hylendid, labelu a safonau cyfansoddiadol. Mae diogelwch a hylendid o ran porthiant yn sicrhau nad yw porthiant anifeiliaid yn cyflwyno halogyddion neu bathogenau i'r gadwyn fwyd ddynol drwy anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer bwyd ac mae'n rhan annatod o ddiogelwch a hylendid bwyd. Mae'r adolygiad hwn yn cwmpasu pob agwedd ar gyfraith fwyd ar wahân i faeth a labelu maeth, ac atchwanegiadau bwyd. Mae'r Adolygiad lechyd yn cwmpasu pob un o'r rhain.
21. Nid yw'r cymhwysedd i ddeddfu ar fwyd yn deillio o sail gyfreithiol sy'n ymwneud yn benodol â 'bwyd' yn y Cytuniad. Fel y trafodwyd yn rhan B yr atodiad cyfreithiol, ar y dechrau, roedd y pwyslais ar symud nwyddau'n rhydd fel y'i hamlinellir yn Erthyglau 34 a 35 y Cytuniad sy'n uniongyrchol berthnasol (cyfyngiadau meintiol ar fewnforion ac allforion yn eu trefn).⁴ Roedd Erthygl 115 (mesurau'r farchnad fewnol y penderfynwyd arnynt yn unfrydol) yn sail i gysoni cyfraith bwyd. Wedi hynny, mae Erthygl 114 (mesurau'r farchnad fewnol y penderfynwyd arnynt gan bleidlais fwyafrif cymwys) ar gael erbyn hyn ac mae'n parhau i gael ei defnyddio ar gyfer llawer o gyfraith bwyd. Ychwanegodd cyflwyno Erthygl 168(4)(b) (mesurau milfeddygol a ffytoiechydol yn amddiffyn iechyd y cyhoedd) Cytuniad pellach y gellid ei ddefnyddio ar gyfer cyfraith bwyd ac adlewyrchodd y pwyslais cynyddol ar iechyd y cyhoedd. Mae'n amlwg bod gan fwyd gysylltiad amlwg â marchnadoedd amaethyddol ac mae offerynnau yn ymwneud â phorthiant a chynhyrchion megis cig eidion, llaeth, brasterau ac olewau, suddion ffrwythau a mêl ymhlith rhai o'r cynhyrchion yn unig sy'n dibynnu ar Erthygl 34 (polisi amaethyddol cyffredin).
22. Mae cyfraith bwyd yn gymhwysedd a rennir. Gan fod yr UE wedi deddfu'n eang, nid oes fawr o le am fesurau cenedlaethol, ar wahân i'r achosion hynny lle mae deddfwriaeth yr UE yn cynnwys hyblygrwydd sy'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau weithredu'n wahanol. Daw un enghraifft o'r fath o dan y ddeddfwriaeth hylendid mewn perthynas â dulliau cynhyrchu, prosesu neu ddosbarthu traddodiadol. Caniateir hyblygrwydd fel hwn mewn nifer o ffyrdd mewn cyfraith bwyd ac mae'r DU yn ceisio defnyddio'r rhain er budd y genedl.

Pwysigrwydd masnach


23. Roedd masnach, a chreu marchnad Ewropeaidd unigol, yn ysgogydd mawr o ran cyfraith bwyd yr UE o'r dechrau ac mae'n parhau i fod felly byth ers hynny. Mae cysondeb o ran rheoleiddio'n helpu i fagu hyder o ran ansawdd a diogelwch cynnyrch sy'n cael ei fasnachu'n rhydd. Mae'r DU wedi cefnogi datblygu marchnad unigol yn frwd. Mae bwyd a phorthiant yn nwyddau sy'n cael eu

⁴ Rhoddir rhifau erthyglau ar gyfer Cytuniad Gweithrediad yr Undod Ewropeaidd (TFEU)

masnachu'n rhyngwladol. Gwerth allforion bwyd yn y DU yn 2011 oedd £18.1bn. Gwerth mewnfurion bwyd yn y DU yn 2011 oedd £36.7bn. Caiff rhyw 40% o gyflenwad bwyd y DU ei fewnforio.⁵

24. Gwerth allforion bwyd a diod o'r DU i'r UE yn 2011 oedd £12.3bn (prisiau cyfredol); yn cyfrif am 69% o'r holl allforion bwyd a diod o'r DU. Ar gyfer yr un cyfnod, gwerth mewnfurion bwyd a diod y DU o'r EU oedd £26.5bn (prisiau cyfredol); yn cynrychioli 63% o'r holl fewnfurion bwyd a diod yn y DU.⁶ Mae hyn yn arwain at ddiffyg masnach gyda'r UE yn y sector bwyd a diod o ryw £14.2bn (prisiau cyfredol). O'i gymharu â'r UE, mae gwerth masnach rhwng y DU a gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE yn fwy gostyngedig. Yn 2011, gwerth allforion a mewnfurion yn y sector hwn oedd £7.2bn (prisiau cyfredol) a £12.1bn (prisiau cyfredol) yn eu trefn.⁷ Dros y 14 mlynedd diwethaf, mae masnach rhwng y DU a'r UE o ran cynhyrchu bwyd a diod wedi cynyddu'n raddol. Rhwng 1998 a 2011, dangosodd allforion a mewnfurion dwf cadarnhaol cryf o 11.6% a 9.3% yn eu trefn. Fodd bynnag, ar gyfer yr un cyfnod, roedd twf allforion i wledydd nad ydynt yn yr UE yn gryfach o lawer gan ddangos cynnydd o 22.2%. Dangosir y tueddiadau hyn yn y siart isod.

Gwerth Masnach y DU gyda Rhanbarthau yn yr UE ac nad ydynt yn yr UE – Sector Bwyd a Diod
(Prisiau cyfredol) (ffynhonnell Data ONS)



⁵ Yn seiliedig ar ffigurau dros dro o 2010 o'r ffynhonnell *Amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Cymhareb cynhyrchu i gyflenwi bwyd yn y DU ('hunangynhaliaeth')* - www.defra.gov.uk/statistics/files/defra-stats-foodfarm-food-trade-selfsuff-110525.xls

⁶ Ffynhonnell: ONS - www.ons.gov.uk/ons/datasets-and-tables/data-selector.html?dataset=mq10

⁷ Ffynhonnell: ONS - www.ons.gov.uk/ons/datasets-and-tables/data-selector.html?dataset=mq10

25. Mae'n debygol mai un o'r prif ystyriaethau ar gyfer yr adolygiad hwn yw p'un a yw cysoni ar lefel Ewropeaidd a chreu marchnad unigol wedi bod o fantais i'r DU. Mae'r data uchod yn dangos yn glir bod busnesau yn y DU yn masnachu'n ehangach nag o fewn yr UE yn unig. A allai hyn awgrymu y byddai mwy o gysoni ar lefel ryngwladol (e.e. drwy'r Comisiwn Codex Alimentarius) yn well? Yn yr un modd, a oes unrhyw ddadleuon i gynorthwyo ymagwedd fwy cenedlaethol?

Cwestiwn: Pa dystiolaeth sy'n bodoli i ddangos bod gweithredu gan yr UE i greu marchnad unigol ar gyfer bwyd wedi bod yn fuddiol neu'n anfuiddiol i'r DU?

Cwestiwn: Pa dystiolaeth sy'n bodoli mai drwy weithredu ar lefel yr UE, lefel genedlaethol neu drwy weithredu ar lefel wahanol, e.e. Codex Alimentarius, yw'r ffordd orau o fodloni'r buddiant cenedlaethol o ran masnach?

Pwysigrwydd amddiffyn iechyd y cyhoedd

26. Mae gan y DU hanes hir o gyfraith diogelwch bwyd ac mae amddiffyn y cyhoedd rhag risgiau diogelwch bwyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae diogelwch bwyd yn effeithio ar bawb. Cost flynyddol amcangyfrifedig salwch a gludir gan fwyd ar gyfer y DU yw £2bn, yn fras.⁸ Amcangyfrifir bod rhyw filiwn o bobl yn y DU yn dioddef salwch a gludir gan fwyd (1 ym mhob 60 o bobl) ac mae 20,000 o'r rhain yn cael eu trin yn yr ysbyty, gyda rhyw 500 o farwolaethau.⁹ Mae'r ffigurau hyn yn dangos pam, yn enwedig ar ôl y pwyslais cychwynnol ar greu'r farchnad fewnol, y mae llawer o gyfraith bwyd yr UE wedi canolbwyntio ar amddiffyn iechyd y cyhoedd. Mae'r ffaith bod bwyd yn cael ei fasnachu'n ryngwladol yn golygu bod risgiau bwyd yn gallu cael eu cludo ar draws ffiniau ac mae cyfraith bwyd yr UE yn cydnabod hyn drwy hwyluso rhannu gwybodaeth ac ymdrin â digwyddiadau.
27. Mae labelu bwyd cyffredinol ac ansawdd a safonau cyfansoddiadol hefyd yn ymwneud yn rhannol ag amddiffyn buddiannau defnyddwyr a sicrhau na chaiff pobl eu camarwain o ran cynnwys neu ansawdd bwyd.¹⁰
28. Wrth i fesurau gael eu cyflwyno yn yr UE, roedd yn rhaid i Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, ddileu deddfwriaeth genedlaethol sy'n gwrthdaro. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at leihad yn y safon a bennwyd a'r dileu'r hyn a ellid fod wedi'i ystyried yn amddiffyniad defnyddiol yn erbyn materion nad ydynt yn ymwneud â diogelwch.

Mae cyfraith bwyd yn ymwneud yn nodweddiadol â chanfod y cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn defnyddwyr, mewn perthynas â diogelwch, ond hefyd mewn

⁸ Seiliwyd y gost amcangyfrifedig ar gyfer y DU gyfan ar raddau canfod yng Nghymru a Lloegr. Caiff y rhain eu defnyddio'n ddiweddarach i amcangyfrif cyfraddau a chostau blynyddol Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y gost flynyddol amcangyfrifedig ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2009 oedd £1.8 biliwn

⁹ Adroddiad Blynyddol y Prif Wyddonydd 2010/11 -

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/publication/csr1011.pdf

¹⁰ Maent hefyd yn bwysig ar gyfer y farchnad unigol a gall fod iddynt rai goblygiadau o ran diogelwch bwyd.

perthynas â buddiannau ehangach, a bodloni buddiannau busnes o ran cyfyngu ar feichiau a galluogi mynediad i'r farchnad.

Cwestiwn: A yw gweithredu gan yr UE mewn perthynas â chyfraith bwyd wedi cynnig y cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn y defnyddiwr ac amddiffyn buddiannau ac enw da busnesau yn y DU?

Cwestiwn: A oes dystiolaeth bod deddfu ar amddiffyn defnyddwyr ar lefel Ewropeaidd wedi bod yn fuddiol neu'n anfuddiol i fuddiant cenedlaethol y DU?

Pwysigrwydd y sector bwyd i'r economi

29. Mae diwydiant bwyd y DU yn sylweddol ac mae rhyw 587,900¹¹ o fusnesau bwyd yn y DU.¹² Yn C1 2012, amcangyfrifwyd bod sector bwyd y DU yn cyflogi 3.7 miliwn o bobl (14% o'r gyflogaeth genedlaethol).¹³ Mae rhyw 95% o'r busnesau hyn yn fusnesau bach a chanolig. Mae'n bwysig gofyn sut mae datblygu deddfwriaeth ar fwyd yn yr UE wedi effeithio ar y busnesau hyn, sydd mor bwysig i economi'r DU ac i agenda twf Llywodraeth y DU.
30. Ers canol neu ddiwedd y 1990au, egwyddor ganolog cyfraith bwyd yr UE yw y dylai gael ei seilio ar wyddoniaeth. Mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi hyn yn frwd fel ffordd o nid yn unig amddiffyn y defnyddiwr, ond hefyd o sicrhau rheolaeth gymesur sy'n seiliedig ar risg sy'n lleihau beichiau ar fusnes.

Cwestiwn: Pa dystiolaeth sydd bod egwyddor deddfwriaeth fwyd sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ar lefel Ewropeaidd wedi bodloni'r buddiant cenedlaethol yn dda? A oes unrhyw bryderon am yr egwyddor a'r broses o'i chymhwyso? A oes unrhyw enghreifftiau o beidio â'i dilyn?

Cynrychiolaeth allanol

31. Mae Aelod-wladwriaethau'r UE, gan gynnwys y DU, wedi bod yn aelodau o'r Comisiwn Codex Alimentarius (Codex) ers cryn amser. Mae Codex yn trafod ac yn cysoni safonau bwyd byd-eang. Mae'r safonau hyn yn bwysig gan fod modd eu defnyddio yn nhafodaethau Sefydliad lechyd y Byd ac mae llawer o wledydd yn seilio eu deddfwriaeth genedlaethol arnynt. Yn 2003, ymunodd yr UE yn ffurfiol fel aelod o Codex. Bu rhywfaint o gydlynw rhwng Aelod-wladwriaethau mewn trafodaethau Codex mewn perthynas â materion a gysonir yn yr UE, ond cyn i'r UE ymuno, roedd cynrychiolaeth ar ffurf Aelod-wladwriaethau unigol yn unig. Erbyn hyn, mae'r UE yn cynrychioli pob Aelod-wladwriaeth yn Codex o ran materion sydd eisoes wedi'u cysoni'n llawn ledled Ewrop; mae hyn yn golygu y gall yr UE a'i Haelod-wladwriaethau gyflwyno sail gref ar gyfer trafod. Fodd bynnag, o ran materion nad ydynt wedi'u cysoni'n llawn hyd yn hyn a lle na all yr

¹¹ System Monitro Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS)

¹² Llyfr Pced Ystadegau Bwyd 2012 - www.defra.gov.uk/statistics/files/defra-stats-foodfarm-food-pocketbook-2012-121005.pdf

¹³ Idem.

UE a'i Haelod-wladwriaethau ddod i gytundeb ynghylch ymagwedd i'w defnyddio, efallai na fyddant yn gallu cyfrannu'n effeithiol at y drafodaeth.

Cwestiwn: Pa effaith y mae'r UE yn mabwysiadu'r rôl gynrychiadol yn y Comisiwn Codex Alimentarius wedi'i chael ar y buddiant cenedlaethol yn y DU?

Y dyfodol

32. Mae Rheoliad 882/2004/EC yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth swyddogol, megis archwiliadau neu gymeradwyaethau, y mae Aelod-wladwriaethau yn eu cynnal er mwyn gwirio p'un a yw busnesau wedi cydymffurfio â deddfwriaeth bwyd-amaeth. Caiff y rheolau eu cysoni er mwyn rhoi lefel uchel o iechyd i bobl, anifeiliaid a phlanhigion ac maent yn sicrhau gweithrediad y farchnad fewnol. Nod yr adolygiad yw symleiddio ac esbonio'r fframwaith cyfreithiol a mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ariannu rheolaeth swyddogol, yn benodol ei chynaliadwyedd yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'n debygol mai'r agwedd fwyaf dadleuol fydd cyllid, lle mai'r bwriad yw cynyddu'r rheolaeth yn sylweddol gyda thaliadau gorfodol ar gyfer diwydiant. Er bod safbwyntiau cychwynnol yn y DU yn lled-gefnogi'r adolygiad yn gyffredinol, mae pryder ynghylch cyfeiriad y teithio mewn perthynas â chodi tâl.
33. Disgwylir cynigion y Comisiwn ar adolygu'r pecyn hylendid yn gynnar yn 2013. Croesewir yr adolygiad a disgwylir iddo edrych ar nifer o feysydd, gan gynnwys darparu rhan-ddirywiad ar gyfer sefydliadau sy'n cynhyrchu cynhyrchion hynod goeth penodol (megis gelatin), symleiddio'r system ar gyfer rhoi gwybod am fesurau cenedlaethol a ganiateir gan hyblygrwydd yn y ddeddfwriaeth hylendid, a moderneiddio rheolaeth ar gig. Mae'r DU wedi bod yn galw am reolaeth gig sydd wedi'i seilio'n fwy ar risgiau, lleihau costau busnesau a gwella dulliau amddiffyn iechyd y cyhoedd heb fod ar draul y fasnach allforio.

Cwestiwn: Sut y gallai'r DU elwa ar yr UE yn gweithredu'n fwy neu'n llai mewn perthynas â chyfraith bwyd yn y dyfodol?

Cwestiwn: Sut y gellid gweithredu'n wahanol e.e. a oes ffyrdd o wella cyfraith bwyd yr UE?

Cwestiwn: Pa heriau neu gyfleoedd a allem eu hwynebu yn y dyfodol ym maes cyfraith bwyd a pha effaith y gallai'r rhain ei chael ar y buddiant cenedlaethol?

Cwestiwn: A oes unrhyw bwyntiau cyffredinol rydych am eu gwneud nas soniwyd amdanynt yn unrhyw un o'r cwestiynau eraill?

34. Mae rhan B o'r atodiad cyfreithiol yn amlinellu'n fanylach sut mae cymhwysedd wedi datblygu o ran cyfraith bwyd ac ar y Comisiwn Codex Alimentaris. Mae rhestr ar wahân o gyfraith bwyd arwyddocaol a chyfredol yr UE.

Galwad am dystiolaeth – rhestr gyflawn o gwestiynau

Cwestiynau mewn perthynas ag adran A: iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid

- Pa dystiolaeth sy'n bodoli bod gweithredu gan yr UE mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid yn fuddiol neu'n anffuddiol i'r DU?
- Sut y gallai'r DU elwa ar yr UE yn gweithredu'n fwy neu'n llai ar iechyd a lles anifeiliaid yn y dyfodol?
- Pa fanteision neu anfanteision a allai godi pe bai gan yr UE gymhwysedd neilltuedig o ran trafod cytundebau masnach gyda thrydydd gwledydd?
- Sut y gellid bodloni'r buddiant cenedlaethol drwy weithredu ar iechyd a lles anifeiliaid e.e. ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, yn ogystal â gweithredu ar lefel yr UE neu fel dewis amgen i hynny?
- A yw deddfwriaeth yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid yn cynnig y cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd a buddiannau busnesau yn y DU?
- A ellid gweithredu'n wahanol e.e. a oes ffyrdd o wella cyfraith yr UE ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid, er enghraifft, er mwyn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau gofynnol gan ddefnyddio ymagwedd sydd wedi'i seilio'n fwy ar dystiolaeth a risgiau? A fyddai hyn yn cyflawni mwy er budd y genedl?
- Pa heriau neu gyfleoedd a allem eu hwynebu yn y dyfodol o ran iechyd a lles anifeiliaid a pha effaith y gallai'r rhain ei chael ar fuddiant y genedl?
- Pa effaith y gallai ehangu'r UE yn y dyfodol ei chael ar iechyd a lles anifeiliaid?
- A oes unrhyw bwyntiau cyffredinol rydych am eu gwneud nas soniwyd amdanynt uchod?

Cwestiynau mewn perthynas ag adran B: diogelwch bwyd (gan gynnwys diogelwch porthiant), labelu, ansawdd bywyd a safonau cyfansoddiadol

- Pa dystiolaeth sy'n bodoli bod gweithredu gan yr UE i greu marchnad unigol ar gyfer bwyd wedi bod yn fuddiol neu'n anffuddiol i'r DU?
- Pa dystiolaeth sy'n bodoli mai drwy weithredu ar lefel yr UE, lefel genedlaethol neu drwy weithredu ar lefel wahanol, e.e. Codex Alimentarius, yw'r ffordd orau o fodloni'r buddiant cenedlaethol o ran masnach?

- A yw gweithredu gan yr UE mewn perthynas â chyfraith bwyd wedi cynnig y cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn y defnyddiwr ac amddiffyn buddiannau ac enw da busnesau yn y DU?
- A oes dystiolaeth bod deddfu ar amddiffyn defnyddwyr ar lefel Ewropeaidd wedi bod yn fuddiol neu'n anffuddiol i fuddiant cenedlaethol y DU?
- Pa dystiolaeth sydd bod egwyddor deddfwriaeth fwyd sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ar lefel Ewropeaidd wedi bodloni'r buddiant cenedlaethol yn dda? A oes unrhyw bryderon am yr egwyddor a'r broses o'i chymhwyso? A oes unrhyw enghreifftiau o beidio â'i dilyn?
- Pa effaith y mae'r UE yn mabwysiadu rôl gynrychiadol yn y Comisiwn Codex Alimentarius wedi'i chael ar y buddiant cenedlaethol yn y DU?
- Sut y gallai'r DU elwa ar yr UE yn gweithredu'n fwy neu'n llai mewn perthynas â chyfraith bwyd yn y dyfodol?
- A ellid gweithredu mewn ffordd wahanol e.e. a oes ffyrdd o wella cyfraith bwyd yr UE?
- Pa heriau neu gyfleoedd a allem eu hwynebu yn y dyfodol ym maes cyfraith bwyd a pha effaith y gallai'r rhain ei chael ar fuddiant y genedl?
- A oes unrhyw bwyntiau cyffredinol rydych am eu gwneud nas soniwyd amdanynt yn unrhyw un o'r cwestiynau eraill?

ATODIAD CYFREITHIOL

Rhagarweiniad

Llofnodwyd y Cytuniad ar y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (Cytuniad EEC) yn Rhufain ar 25 Mawrth 1957 – ynghyd â'r Cytuniad yn sefydlu'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd (Euratom) – a daeth i rym ar 1 Ionawr 1958. Roedd gan Gytuniad EEC nifer o amcanion economaidd, gan gynnwys sefydlu marchnad gyffredin ar gyfer Ewrop. Er 1957, bu cyfres o Gytuniadau yn ymestyn amcanion yr hyn a elwir yn yr Undeb Ewropeaidd erbyn hyn y tu hwnt i'r cwmpas economaidd. Y Cytuniadau diwygiedig (gyda'r dyddiadau y daethant i rym) yw:

- Deddf Gyfun Ewrop (1 Gorffennaf 1987), a roddodd ddarpariaeth ar gyfer cwblhau'r farchnad sengl erbyn 1992;
- y Cytuniad ar Undod Ewropeaidd – Cytuniad Maastricht (1 Tachwedd 1993), a oedd yn ymdrin â materion megis cyfiawnder a materion cartref, polisi tramor a pholisi diogelwch, ac undod economaidd ac ariannol;
- Cytuniad Amsterdam (1 Mai 1999), Cytuniad Nice (1 Chwefror 2003) a Chytuniad Lisbon (1 Rhagfyr 2009), a wnaeth nifer o newidiadau i strwythur sefydliadol yr UE.

Yn sgil y newidiadau hyn, mae dau brif Gytuniad erbyn hyn sydd gyda'i gilydd yn amlinellu cymhwyseddau'r Undeb Ewropeaidd:

- y Cytuniad ar Undod Ewropeaidd (TEU);
- y Cytuniad ar Weithrediad yr Undod Ewropeaidd (TFEU).

Mae'n rhaid i'r Undeb weithredu o fewn terfynau cymhwysedd a gyflwynwyd iddi gan yr Aelod-wladwriaethau. Mae Erthyglau 3 i 6 y TFEU yn amlinellu categorïau cymhwyseddau neilltuedig, a rennir ac ategol y mae holl bolisiau a gweithredoedd yr UE yn perthyn iddynt. Yn y mwyafrif o gyd-destunau, caiff cymhwysedd ei rannu rhwng yr UE ac Aelod-wladwriaethau; ond mae rhai meysydd lle mae gan yr UE gymhwysedd ategol yn unig a hyn a hyn o sefyllfaoedd lle mae ei gymhwysedd yn neilltuedig.

Mae Erthygl 2(2) TFEU yn datgan mewn meysydd cymhwysedd a rennir, y caiff Aelod-wladwriaethau ymarfer eu cymhwysedd i'r graddau nad yw'r UE wedi ymarfer ei chymhwysedd hi. Amlinellir y meysydd cymhwysedd a rennir yn Erthygl 4(2) TFEU ac maent yn cynnwys:

- (a) y farchnad fewnol; . . .
- (d) amaethyddiaeth a physgodfeydd, ac eithrio gwarchod adnoddau biolegol morol; . . .
- (e) yr amgylchedd; . . .
- (k) pryderon diogelwch cyffredin ynghylch materion iechyd cyhoeddus, ar gyfer yr agweddau a ddiffinnir yn y Cytuniad hwn.”

Mae mesurau iechyd a lles anifeiliaid yn dod yn gyffredinol o dan gwmpas ‘marchnad fewnol’ ac ‘amaethyddiaeth a physgodfeydd’. Mae diogelwch bwyd (gan gynnwys diogelwch porthiant) a labelu bwyd, ansawdd bwyd a mesurau cyfansoddiad yn dod yn gyffredinol o dan gwmpas ‘marchnad fewnol’, ‘amaethyddiaeth a physgodfeydd’ a ‘materion iechyd y cyhoedd’. Mae hyn yn golygu, i'r graddau nad yw'r UE wedi rhoi deddfwriaeth ar waith yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid neu gyfraith bwyd, nad oes gan y DU gymhwysedd i weithredu ac eithrio yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.

I'r graddau y gall iechyd a lles anifeiliaid neu gyfraith bwyd fod â goblygiadau o ran iechyd pobl, efallai y caiff ei gwmpasu hefyd gan “bryderon diogelwch cyffredin ynghylch materion iechyd y cyhoedd”. Yn yr achos hwn, mae Erthygl 168 TFEU yn rhoi cymhwysedd i'r UE gyflawni gweithredoedd i ategu, cydlynu neu ychwanegu at weithredoedd Aelod-wladwriaethau ym maes amddiffyn a gwella iechyd pobl. Yn unol ag Erthyglau 2(5) a 6(a) TFEU, ni fydd y gweithredoedd hyn yn disodli cymhwysedd Aelod-wladwriaethau yn y maes hwnnw ac ni chaiff unrhyw ddeddfwriaeth a fabwysiadir gan yr UE gynnwys cysoni cyfreithiau neu reoliadau Aelod-wladwriaethau. Fodd bynnag, fel eithriad i hyn, mae cymhwysedd o dan Erthygl 168(4)(b) TFEU, sy'n datgan y caiff yr UE fabwysiadu “mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol lle mai eu hamcanion pennaf yw amddiffyn iechyd y cyhoedd”, yn faes cymhwysedd a rennir.¹⁴ Felly gall gweithredu gan yr UE mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd ddisodli cymhwysedd y DU ac felly arwain at angen cysoni ar draws yr UE.

Mae gan yr UE gymhwysedd neilltuedig ym meysydd yr undeb tollau a pholisi masnachol cyffredin (Erthygl 3(1)(a) a (e) TFEU). Felly nid oes gan y DU y cymhwysedd i weithredu mewn perthynas â masnach gyda thrydydd gwledydd, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid neu faterion yn ymwneud â chyfraith bwyd sy'n gysylltiedig â'r fasnach honno.

Proses ddeddfwriaethol yr UE

Caiff deddfau cyfreithiol yr UE megis Rheoliadau a Chyfarwyddebau eu mabwysiadu yn gyffredinol gan yr hyn, ar ôl Cytuniad Lisbon, sy'n cael ei alw'n ‘weithdrefn ddeddfwriaethol gyffredin’ (a elwid yn ‘weithdrefn gydbenderfynu’ gynt). Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond y Comisiwn Ewropeaidd sy'n gallu cynnig deddf gyfreithiol newydd. Ond ni all fod yn gyfraith oni chaiff ei mabwysiadu ar y cyd gan y Cyngor (sy'n cynnwys gweinidogion o bob Aelod-wladwriaeth) a Senedd Ewrop. O dan y weithdrefn hon, mae'r Cyngor yn gweithredu ar sail pleidleisio cymwys drwy fwyafrif (QMV), lle mai dim ond mwyafrif penodol o bleidleisiau y mae eu hangen ac mae cyfran pleidleisiau pob Aelod-wladwriaeth yn adlewyrchu maint ei phoblogaeth. Mae'r Cytuniadau hefyd yn amlinellu nifer fach o achosion lle caiff

¹⁴ Erthygl 168(4)(b) TFEU, sy'n disodli Erthygl 152(4)(b) Cytuniad EEC fel y'i diwygiwyd gan Gytuniad Amsterdam.

deddfau cyfreithiol yr UE eu mabwysiadu o dan weithdrefnau gwahanol (y cyfeirir atynt fel 'gweithdrefnau deddfwriaethol arbennig').

Mae rhai Erthyglau Cytuniad, megis y rhai sy'n hybu symud rhydd neu'r rhai sy'n gwahardd arferion gwrthgystadleuol yn yr UE, yn cael effaith uniongyrchol ynddynt eu hunain. Mae Erthyglau eraill yn cynnig y sail gyfreithiol y gellir seilio deddfwriaethol eilaidd yr UE a wneir gan Senedd Ewrop a'r Cyngor arni. Gall deddfwriaeth eilaidd ddirprwyo pŵer i'r Comisiwn wneud deddfwriaeth bellach.¹⁵ Effaith yr UE yn cysoni deddfwriaeth yw bod yn rhaid i Aelod-wladwriaethau weithredu deddfwriaeth ddomestig i ddod â hi i rym a dileu deddfwriaeth genedlaethol sy'n anghyson.

Y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth

Ym 1991, sefydlodd y Comisiwn Ewropeaidd swyddfa i gyflawni ymweliadau archwilio i sicrhau bod Aelod-wladwriaethau yn rhoi deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid neu ddiogelwch bwyd neu borthiant a hylendid ar waith yn briodol. Mae'r swyddfa, a elwir y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (FVO) er 1996, hefyd yn sicrhau bod cyflenwyr trydydd gwlad ym marchnad yr UE yn dilyn gofynion deddfwriaeth mewn perthynas â'u hallforion.

Yn sgil ymweliad y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth ag Aelod-wladwriaeth, cyflwynir adroddiad gan y Comisiwn i'r Aelod-wladwriaeth dan sylw yn manylu ar yr holl ganfyddiadau ac yn gwneud argymhellion lle datgelwyd methiannau. Gallai'r argymhellion hyn ymestyn at anogaeth i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth weithredu ddomestig i sicrhau bod Aelod-wladwriaethau yn osgoi'r Comisiwn yn dwyn achosion tor-ddyletswydd. Os bydd y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth yn canfod bygythiad dyrys i iechyd defnyddwyr, anifeiliaid neu blanhigion, gall y Comisiwn gychwyn mesurau brys neu fesurau diogelu, a allai gynnwys camau cyfreithiol (gan Benderfyniadau Comisiwn sy'n uniongyrchol berthnasol fel arfer), i atal masnachu anifeiliaid a phlanhigion penodol neu gynhyrchion sy'n deillio ohonynt.

Materion yn ymwneud â Phroses

Gall y ddeddfwriaeth eilaidd ddirprwyo pŵer i'r Comisiwn wneud deddfwriaeth drydyddol; caiff hon ei defnyddio fwyfwy i raddau helaeth ar gyfer cyfraith bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid. Ers Cytuniad Lisbon, mae'r ddeddfwriaeth drydyddol ar ffurf naill ai deddfau dirprwyedig neu ddeddfau gweithredu. Mae deddfau dirprwyedig yn ychwanegu at elfennau o ddeddfwriaeth eilaidd neu'n diwygio'r elfennau nad ydynt yn hanfodol. Darperir rheolaeth dros y Comisiwn drwy bwerau'r Cyngor neu Senedd Ewrop i ddiddymu neu wrthwynebu deddfau dirprwyedig penodol.

Defnyddiwyd y math arall o ddeddfwriaeth drydyddol, deddfau gweithredu (a'u rhagflaenydd) yn benodol ym maes cyfraith bwyd. Mae nifer o fathau o weithdrefn ar gyfer rhoi deddfau ar waith, ond yr un fwyaf cyffredin yw lle y gall y Comisiwn

¹⁵ Erthyglau 288 i 290 TFEU.

weithredu gydag Aelod-wladwriaethau yn rheoli ar ffurf pwyllgor arbenigol. Yn yr achos hwn, mae dau ddull ar gyfer mabwysiadu deddf gweithredu – y weithdrefn gynghorol a'r weithdrefn archwilio. Mae'r weithdrefn gynghorol yn rhoi'r rheolaeth leiaf i'r Aelod-wladwriaeth dros y Comisiwn; mae'r weithdrefn archwilio yn rhoi mwy o reolaeth i Aelod-wladwriaethau ac yn cynnwys defnyddio pwyllgor apeliadau os bydd pleidleisio cymwys drwy fwyafrif gan Aelod-wladwriaethau yn arwain at farn negyddol ar gynigion y Comisiwn. Os na fydd yr Aelod-wladwriaethau yn rhoi unrhyw farn o dan y weithdrefn archwilio (h.y. nid oes unrhyw bleidleisio cymwys drwy fwyafrif o blaid y cynnig neu'n ei erbyn), gall y Comisiwn ddewis mabwysiadu'r mesur (yn amodol ar rai cyfyngiadau). Gall hyn weithio er budd y DU os ydym fel lleiafrif o blaid cynnig, ond yn yr un modd, mae'n gweithio yn ein herbyn os ydym yn y lleiafrif sydd yn erbyn y cynnig.

RHAN A: IECHYD A LLES ANIFEILIAID

Adran 1: Datblygu cymhwysedd

Nid yw'r cymhwysedd a gyflwynir gan Gytuniad gwreiddiol y EEC¹⁶ mewn perthynas ag anifeiliaid sy'n 'gynhyrchion amaethyddol' wedi newid yn sylweddol drwy Gytuniadau dilynol. Ar hyn o bryd, mae'r TFEU yn datgan y bydd y farchnad fewnol yn estyn i 'gynhyrchion amaethyddol' ac mae'n diffinio'r term hwn i gynnwys cynhyrchion ffermio stoc a physgodfeydd. Mae'n cynnwys anifeiliaid byw, cynhyrchion anifeiliaid, pysgod a phlanhigion.¹⁷

Cyflwynir cymhwysedd mewn perthynas ag anifeiliaid nad ydynt yn 'gynhyrchion amaethyddol' gan ddarpariaethau cyffredinol y Cytuniad yn ymwneud â chreu'r farchnad fewnol a symud nwyddau'n rhydd nad ydynt wedi newid o ran cwmpas ers sefydlu'r EEC a derbyniad y DU ym 1972. Mae Erthygl 114 TFEU yn ddarpariaeth allweddol erbyn hyn.¹⁸

Cyflwynwyd rhagflaenydd Erthygl 168 TFEU, sy'n cyflwyno pŵer ar Senedd Ewrop a'r Cyngor i fabwysiadu mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol lle mai eu prif amcan yw amddiffyn iechyd pobl, gan Gytuniad Amsterdam ym 1997.¹⁹

Mewn perthynas â lles anifeiliaid, mae cwmpas gweithredu'r UE wedi estyn o bryder i sicrhau amodau cystadlu cyfartal mewn perthynas â masnachu anifeiliaid fferm i fuddiant ehangach o ran lles pob anifail mewn rhai meysydd polisi.

Roedd y cyfeiriad cyntaf mewn Cytuniad at les anifeiliaid mewn Datganiad a oedd wedi'i atodi i'r Cytuniad ar Undod Ewropeaidd a oedd yn galw ar sefydliadau Ewropeaidd ac Aelod-wladwriaethau i roi sylw llawn i ofynion lles anifeiliaid wrth

¹⁶ Erthyglau 38 i 47 ac Atodiad II Cytuniad EEC.

¹⁷ Erthyglau 38 i 44 ac Atodiad I TFEU.

¹⁸ Ychwanegwyd Erthygl 100a yr Deddf Gyfun Ewrop at Erthygl 100 Cytuniad EEC; rhoddwyd Cytuniad Maastricht yn ei lle; fe'i ailrifwyd fel Erthygl 95 Cytuniad Amsterdam; ac yna fe'i disodlwyd gan Erthygl 114 TFEU.

¹⁹ Erthygl 152 Cytuniad EEC.

ddeddfu ar “y polisi amaethyddol cyffredin, trafndiaeth, y farchnad fewnol ac ymchwil.”²⁰ Cyflwynodd Cytuniad Amsterdam (1997) Brotocol rhwymol-gyfreithiol ar amddiffyn a lles anifeiliaid a oedd yn gonglfaen datblygu polisiâu a deddfwriaeth yn ymwneud â lles anifeiliaid yn y Gymuned. Roedd gan y Protocol gwmpas tebyg i'r Datganiad a sicrhodd well amddiffyniad a pharch ar gyfer lles anifeiliaid fel “bodau ymdeimladol”. Roedd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at barchu “arferion yr Aelod-wladwriaethau yn ymwneud yn benodol â safleoedd crefyddol, traddodiadau diwylliannol a threftadaeth ranbarthol”.²¹ Cafodd y Protocol ei ddisodli yn ei dro gan Erthygl 13 TFEU, sy'n ailgadarnhau ymrwymiad yr UE i les anifeiliaid, gan ei roi mewn safle cyfartal ag egwyddorion allweddol eraill y mae'n rhaid i'r UE eu parchu wrth ffurfio a rhoi ei pholisïâu ar waith, ac sy'n ymestyn cwmpas yr egwyddor hon i bysgodfeydd, datblygu technolegol a pholisïâu gofod yr UE.²²

Tan Gytuniad Lisbon, roedd mabwysiadu mesurau yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid yn uchelfr faint y Cyngor. Cafodd cymhwysedd yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid ei ymarfer yn y lle cyntaf gan y Cyngor drwy ddibynnu ar Erthyglau 43 a 100 Cytuniad EEC, ac yna wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar Erthygl 43.²³ Daeth defnyddio Erthygl 100 yn y maes hwn o ganlyniad i gyfaddawdu gwleidyddol a gododd yn y Cyngor ym 1964; roedd Erthygl 100 yn gofyn am bleidleisio unfrydol mewn perthynas â chyfarwydddebau ar gyfer dod â darpariaeth sy'n effeithio'n uniongyrchol ar sefydlu neu weithrediad y farchnad gyffredin at ei gilydd, er bod Erthygl 43 wedi gofyn am bleidleisio cymwys drwy fwyafrif mewn perthynas â mesurau sy'n angenrheidiol er mwyn ceisio cyflawni amcanion y polisi amaethyddol cyffredin. Rhoddodd y Cyngor y gorau i ddibynnu ar Erthygl 43 ac Erthygl 100 ar gyfer deddfwriaeth yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid ym mis Rhagfyr 1985,²⁴ newid a gynhaliwyd gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, a elwid yn Llys Cyfiawnder Ewrop gynt.

Yn unol ag Erthygl 43(2) TFEU, mae gan Senedd Ewrop rôl erbyn hyn mewn perthynas â mabwysiadu mesurau iechyd a lles anifeiliaid drwy gymhwyso'r weithdrefn deddfwriaethol gyffredin.

Adran 2: Cyflwr cymhwysedd ar hyn o bryd

Y brif Erthygl Cytuniad y gweithredwyd iechyd a lles anifeiliaid yn yr UE yn unol â hi yw Erthygl 43 TFEU. Mae Erthygl 43(2) TFEU yn cynnig deddfwriaeth i Senedd Ewrop a'r Cyngor ei mabwysiadu, gan weithredu yn unol â gweithdrefn

²⁰ Datganiad 24.

²¹ Protocol Rhif 33. Mae gan Brotocolau'r Cytuniad yr un statws â chyfraith sylfaenol.

²² Yn 2001, gwelodd Llys Cyfiawnder Ewrop Achos C-189/01 Jippes “er bod nifer o ddarpariaethau deddfwriaeth eilaidd yn bodoli yn ymwneud â lles anifeiliaid, yn yr un modd, nid ydynt yn cynnwys unrhyw arwydd bod angen sicrhau y dylid ystyried lles anifeiliaid yn egwyddor gyffredin cyfraith Cymunedol” (paragraff 76).

²³ Cafodd Erthygl 43 Cytuniad gwreiddiol EEC ei hailrifo yn Erthygl 37 gan Gytuniad Amsterdam ac yna fe'i disodlwyd gan Erthygl 43 TFEU.

²⁴ C 131/86 UK v Council (paragraffau 8-29). Mae Erthygl 114 TFEU, a ddisodlodd Erthygl 100, yn gofyn am bleidleisio cymwys drwy fwyafrif erbyn hyn.

ddeddfwriaethol gyffredin, y mae ei hangen er mwyn cyflawni amcanion y polisi amaethyddol cyffredin.

Caiff Erthygl 43 TFEU ei defnyddio hefyd fel sail gyfreithiol i ddeddfwriaeth yr UE yn rheoleiddio defnyddio bwyd anifeiliaid meddygol a gweddillion meddyginiaeth filfeddygol ymysg da byw. Fodd bynnag, caiff rheolau'r UE yn ymwneud â chymeradwyo a gweithgynhyrchu meddyginiaethau milfeddygol eu gwneud yn unol â'r hyn a elwir erbyn hyn yn Erthygl 114 TFEU, sy'n cynnig darpariaeth ar gyfer mabwysiadu deddfwriaeth sydd â'r amcan o sefydlu a gweithredu'r farchnad fewnol.²⁵

Mae mesurau iechyd a lles anifeiliaid a gymerir gan Aelod-wladwriaethau hefyd yn destun y rheolau ar symud nwyddau'n rhydd yn Erthyglau 28 i 37 TFEU.²⁶ Mae Erthyglau 34 a 35 TFEU yn gwahardd cyfyngiadau meintiol ar fewnforion ac allforion a chaiff pob mesur effaith gyfwerth rhwng Aelod-wladwriaethau ac maent wedi'u dehongli'n eang gan Lys Cyfiawnder Ewrop. Mae Erthygl 36 TFEU yn cynnig eithriadau rhag Erthygl 34 ac Erthygl 35 gan gynnwys lle mae cyfiawnhad ar sail "amddiffyn iechyd a bywyd neu bobl, anifeiliaid neu blanhigion"; mae'r eithriadau hyn wedi'u dehongli'n gul gan Lys Cyfiawnder Ewrop.²⁷

Nid yw Gibraltar yn gyffredinol yn destun rheolau'r UE ar iechyd a lles anifeiliaid. O dan Ddeddf Ymaelodi (1972) y DU, nid yw rhai darpariaethau yng nghyfraith yr UE yn berthnasol i Gibraltar gan gynnwys y rhai'n ymwneud â symud nwyddau'n rhydd a'r polisi amaethyddol cyffredin. Fodd bynnag, mae Gibraltar wedi'i rhwymo gan fesurau a fabwysiadwyd o dan Erthygl 114 TFEU sydd â'r bwriad o gysoni amodau cystadlu.²⁸

Mae Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel yn destun rheolau iechyd a lles anifeiliaid yr UE dim ond i'r graddau y mae'r rheolau hynny'n ymwneud â chyfyngiadau ansoddol a mesurau mewnfario eraill mewn perthynas â chynhyrchion amaethyddol.²⁹

Darnau pwysig o ddeddfwriaeth yr UE

Darperir rhestr o ddarnau pwysig o ddeddfwriaeth yr UE mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid ar ein gwefan yn

²⁵ Ychwanegwyd at Erthygl 100 wreiddiol Cytuniad EEC gan Erthygl 100a gan Ddeddf Gyfun Ewrop cyn cael ei disodli gan Gytuniad Maastricht a'i hailrifo fel Erthygl 95 Cytuniad Amsterdam cyn cael ei disodli gan Erthygl 114 TFEU.

²⁶ Oni roddir darpariaeth amgen yn Erthyglau 39 i 44 (Erthygl 38(2) TFEU).

²⁷ Yn Achos 5/94 Hedley Lomas (a oedd yn ymwneud â phenderfyniad yr DU i wrthod rhoi trwyddedau allforio er mwyn allforio defaid byw i Sbaen ar y sail y byddai'r ffordd y cânt eu trin mewn lladd-dai yn Sbaen yn groes i reolau'r UE ar lonyddu), datganodd Llys Cyfiawnder Ewrop nad oedd yn bosibl rhoi sylw i Erthygl 36 mwyach mewn ardal sy'n gyson â deddfwriaeth yr UE: "Ni chaiff unrhyw Aelod-wladwriaeth fabwysiadu'n unochrog, ar ei hawdurdod ei hun, mesurau unioni neu amddiffyn sydd â'r bwriad o osgoi unrhyw achos o Aelod-wladwriaeth arall yn torri rheolau cyfraith Cymunedol" (paragraff 20).

²⁸ Erthygl 355(3) TFEU.

²⁹ Erthygl 355(5)(b) TFEU ac Erthygl 1 Protocol 3 Deddf Ymaelodi'r DU.

www.defra.gov.uk/corporate/about/how/europe/review/. Mae'r ddeddfwriaeth yn cwmpasu atal a rheoli clefydau; mewnfornion a masnachu y tu mewn i'r UE ar ffurf anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid; lles anifeiliaid fferm; lles anifeiliaid eraill, a meddyginiaethau milfeddygol, bwyd anifeiliaid meddygol a gweddillion meddyginiaeth filfeddygol ymysg da byw.

Darnau pwysig arfaethedig o ddeddfwriaeth yn yr UE

Mae'r Comisiwn wedi ymgynghori ynghylch cyfraith newydd ar gyfer Iechyd Anifeiliaid yn yr UE er mwyn sefydlu sail gyfreithiol i bolisi cyffredin ar gyfer iechyd anifeiliaid yn yr UE a fframwaith rheoleiddio sengl ar gyfer iechyd anifeiliaid (gweler paragraff 17).

Cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad ar glonio anifeiliaid ar gyfer cynhyrchu bwyd ar 19 Hydref 2010 ac argymhellodd waharddiad pum mlynedd ar glonio yn yr UE, ar ddefnyddio anifeiliaid wedi'u clonio ac ar werthu bwyd o anifeiliaid a gloniwyd. Chwalodd cyfathrebu rhwng y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop mewn perthynas â diwygiadau i Reoliad arfaethedig ar gyfer Bwydydd Newydd yn yr UE a fyddai wedi newid rheolau cyfredol yr UE ar fwyd o anifeiliaid wedi'u clonio a'u disgynyddion ar 29 Mawrth 2011. Daeth ymgynghoriad y Comisiwn i ben ynghylch set gynhwysol o fesurau posibl ar glonio anifeiliaid ar gyfer cynhyrchu bwyd ac a gaiff eu cynnig mewn deddfwriaeth i'w mabwysiadu yn 2013 ar 3 Medi 2012.

Gweithredu yn y DU

Mae'r DU wedi dod â chyfraith yr UE i rym yn y maes cymhwysedd hwn drwy wneud nifer o offerynnau statudol yn unol â phwerau a gyflwynwyd gan seiliau cyfreithiol domestig megis Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, Deddf Cyllid 1973, Deddf Gwenyn 1980, Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981³⁰, Deddf Trwyddedau Swau 1981 a Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

Mae iechyd a lles anifeiliaid yn faes datganoledig.

Cynrychiolaeth allanol

Mae Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd yn datblygu safonau sy'n bwynt cyfeirio ar gyfer masnach ryngwladol. Mae pob Aelod-wladwriaeth yn yr UE yn aelodau o Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd. Yn 2004, llofnododd yr UE gytundeb gyda Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd i ddod yn arsylwr ffurfiol Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd. Mae'r UE yn rhannu'r cymhwysedd gyda'i Haelod-wladwriaethau ar sail lefel y cysoni â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r UE yn aelod o Sefydliad Masnach y Byd, fel y mae pob Aelod-wladwriaeth. Mae mesurau iechyd anifeiliaid a phlanhigion sy'n effeithio ar fasnach ryngwladol

³⁰ Roedd Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn fodd o atgyfnerthu Deddfau Clefydau Anifeiliaid 1935, 1950 a 1975 gynt ynghyd â Deddf y Gynddaredd 1974 a Deddf y Merlod 1969. Fe'i diwygiwyd yn sylweddol gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 ac, mewn perthynas â'r Alban, Animal Health and Welfare (Scotland) Act 2006.

yn destun Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Fesurau Iechyd a Ffytioiechydol. Mae'r Comisiwn yn trafod ac yn gweithredu gyda Sefydliad Masnach y Byd ar ran yr Aelod-wladwriaethau, yn unol â'i gymhwysedd neilltuedig ym meysydd yr undeb tollau a pholisi masnachol cyffredin (Erthygl 3(1)(a) a (e) TFEU).

Barnau gwahanol rhwng sefydliadau yn y DU a gwladwriaethau/ sefydliadau Ewropeaidd eraill

Yn achos gwartheg a moch, mae Llywodraeth y DU yn cytuno gydag Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop nad oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw wahaniaeth o ran diogelwch bwyd rhwng cynhyrchion bwyd sy'n dod o anifeiliaid sy'n cael eu bridio'n gonfensiynol ac o anifeiliaid wedi'u clonio a'u disgynyddion. Mae o'r farn y byddai gwaharddiad ar glonio, defnyddio clonau a bwyd o glonau (fel y'i hargymhellwyd gan y Comisiwn ar 19 Hydref 2010) yn anghymesur o ran diogelwch bwyd a lles anifeiliaid. Mae deddfwriaeth gyffredol ar les eisoes yn amddiffyn lles pob anifail fferm, gan gynnwys clonau a'u disgynyddion.

Nid yw'r ddogfen ymgynghori/galwad am dystiolaeth hon yn cwmpasu datblygiadau ar ôl Tachwedd 2012, er enghraifft achosion pwysig Llys Cyfiawnder Ewrop a gyfeiriwyd at y Llys neu gynigion deddfwriaethol a gyflwynwyd gan y Comisiwn i'r Cyngor.

RHAN B: CYFRAITH BWYD:

Adran 1: Datblygu cymhwysedd

Mae'r rhan hon yn ymdrin â chyfraith bwyd³¹ sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a phorthiant (gan gynnwys hylendid³²), labelu, ansawdd bwyd a chyfansoddiad. Nid yw'n cwmpasu maeth,³³ labelu maeth neu atchwanegiadau bwyd.

Nid yw cymhwysedd yr UE i wneud cyfraith bwyd yn deillio o sail gyfreithiol benodol yn ymwneud â 'bwyd' yn y Cytuniad ond mae wedi datblygu wrth i gyfraith achosion ddatblygu mewn perthynas ag Erthyglau sy'n uniongyrchol berthnasol ar symud nwyddau'n rhydd ac wrth i ddeddfwriaeth yr UE gael ei gwneud mewn meysydd newydd gan ddefnyddio seiliau cyfreithiol cyffredinol.

Yn y blynyddoedd cynnar ar ôl Cytuniad Rhufain, deilliodd cyfraith bwyd yr UE o rwymedigaeth y Cytuniad i sicrhau symud bwyd yn rhydd yn y farchnad gyffredin drwyddi draw. Roedd deddfwriaeth yr UE yn ymwneud â chyfraith bwyd a

³¹ Caiff y term 'cyfraith bwyd' ei ddefnyddio'n eang yn Rheoliad (EC) Rhif 178/2002, (y Gyfraith Bwyd Cyffredinol) i gynnwys cyfraith yr UE a chyfraith genedlaethol: mae Erthygl 3 yn datgan bod 'cyfraith bwyd' yn golygu'r cyfreithiau, y rheoliadau a'r darpariaethau gweinyddol sy'n llywodraethu bwyd yn gyffredinol, a diogelwch bwyd yn benodol, p'un a yw hynny ar lefel gymunedol neu genedlaethol; mae'n cwmpasu unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd a hefyd porthiant a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu sy'n cael ei fwydo iddynt. Mae bwyd yn cynnwys diod, ar wahân i ddŵr yfed oni bai ei fod mewn poteli.

³² Caiff "hylendid" yng nghyd-destun diogelwch bwyd a phorthiant ei ddefnyddio'n gyffredinol i gyfeirio at arferion a gweithdrefnau o ran cynhyrchu, trin a dosbarthu.

³³ Mae'r Adolygiad Iechyd yn cwmpasu maeth.

fabwysiadwyd yn y blynyddoedd cynnar yn dameidiog ac, roedd angen unfrydedd wrth i'r ddeddfwriaeth ddatblygu'n araf iawn. Roedd y Gyfarwyddeb 'cysoni' gyntaf i gytuno arni yn ymwneud â lliwiadau bwyd (Cyfarwyddeb Cyngor EEC dyddiedig 23 Hydref 1962) ac roedd yn defnyddio'r system dosbarthu rhifau E- am y tro cyntaf. Wedi hynny, ymddangosodd cyfarwyddebau ar gyfer cyffeithyddion (Cyfarwyddeb Cyngor EEC 64/54 ym 1963) a gwrthocsidyddion (Cyfarwyddeb Cyngor EEC 70/357 ym 1970). Cytunwyd ar Gyfarwyddeb Cyngor 79/112/EC yn ymwneud â labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd i'w gwerthu i'r defnyddiwr yn y pen draw ym 1978.

Datganodd dyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop ym 1979 yn Cassis de Dijon³⁴ yn eglur nad yw gwaharddiad y Cytuniad (Erthygl 34 TFEU erbyn hyn) ar fesurau sy'n cael effaith sy'n gyfwerth â chyfyngiadau meintiol ar fewnforion o Aelod-wladwriaethau eraill wedi'i gyfyngu i fesurau sy'n gwahaniaethu yn erbyn mewnforion ond mae'n ymestyn i unrhyw fesur sy'n berthnasol i gynhyrchion cartref a mewnforion fel ei gilydd.³⁵

Ar ôl Cassis de Dijon, mabwysiadodd y Comisiwn ymagwedd ehangach, ond cyfyngedig o hyd, at fwyd a amlinellwyd mewn erthygl o'r enw 'Completion of the Internal Market: Community legislation on foodstuffs' (1985).³⁶ Amlinellodd y ddogfen hon yr angen am elfen strategol (yn hytrach nag elfen dameidiog) o ran amddiffyn iechyd y cyhoedd a defnyddwyr mewn cyfraith bwyd a'r angen am strwythur 'rheoli swyddogol' i fonitro a gorfodi cyfraith bwyd. Cynhyrchodd y fenter hon Gyfarwyddebau fframwaith ar faterion yn ymwneud â bwyd gan gynnwys hylendid (ym 1995), ychwanegion (ym 1988) a rheolaeth swyddogol (ym 1989).

Er bod datblygu cyfraith bwyd yr UE wedi bod yn araf oherwydd y gofyniad am unfrydedd, darparwyd mynediad cynyddol i bleidleisio cymwys drwy fwyafrif lle roedd angen deddfwriaeth i gwblhau'r farchnad fewnol gan Ddeddf Gyfun Ewrop (1986). Cyflwynodd Cytuniad Maastricht (1992) sail gyfreithiol ar gyfer iechyd cyhoeddus i Gytuniad EEC a estynnwyd yng Nghytuniad Amsterdam (1997).

Arweiniodd nifer o achosion difrifol yn ymwneud â bwyd gan gynnwys yr argyfwng BSE, a ddaeth i ben ym 1996, at ddiwygio cyfraith bwyd yn sylweddol. Creodd Rheoliad (EC) 178/2002 fframwaith cyfreithiol cynhwysfawr ar gyfer diogelwch bwyd 'o'r fferm i'r fforc' gyda rhwymedigaethau olrhain helaeth a rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaethau i roi gwybod i'r Comisiwn am ddigwyddiadau yn ymwneud â bwyd lle y gellid rhannu'r wybodaeth hon hefyd ar draws yr UE. At hynny, sefydlwyd Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, sy'n rhoi cyngor gwyddonol ar fwyd yn awgrymu bod yr UE yn mabwysiadu cymhwysedd gwyddonol (o natur nad yw'n gyfreithiol). Atgyfnerthodd ac ad-drefnodd 'pecyn' arall o fesurau ddeddfwriaeth bresennol yr

³⁴ Achosion C-120/78.

³⁵ Amlinellir eithriadau i'r athrawiaeth symud nwyddau'n rhydd yn Erthygl 26 TFEU (gan gynnwys 'amddiffyn iechyd a bywyd pobl'); mae Llys Cyfiawnder Ewrop wedi dyfarnu bod yn rhaid dehongli'r rhain yn gul.

³⁶ Cyfathrebu gan y Comisiwn i'r Cyngor a Senedd Ewrop. COM (85) 603 terfynol, 8 Tachwedd 1985.

UE yn ymwneud â hylendid.³⁷ Amlinellodd mesur arall yr egwyddorion rheoli cyffredinol y mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau eu rhoi ar waith fel y gallant sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth mewn perthynas â bwyd a phorthiant.³⁸

Adran 2: Cyflwr cymhwysedd ar hyn o bryd

Prif Erthyglau'r Cytuniad sy'n berthnasol i gyfraith bwyd yw:

- Erthygl 34 (gwahardd cyfyngiadau meintiol ar allforion a mesurau sy'n cael effaith gyfwerth) ac Erthygl 35 (gwahardd cyfyngiadau meintiol ar fewnforion a mesurau sy'n cael effaith gyfwerth) sy'n uniongyrchol gymwys
- Mae Erthygl 43 (Polisi Amaethyddol Cyffredin) yn sail gyfreithiol ar gyfer mesurau sy'n ymwneud â phorthiant a ffynonellau bwyd anifeiliaid (anifeiliaid a chnydau) yn ogystal â bwyd, yn benodol ansawdd a safonau cyfansoddiad
- Erthygl 114 (mesurau sy'n dod â chyfreithiau cenedlaethol at ei gilydd at ddibenion y farchnad fewnol)
- Erthygl 168 (iechyd y cyhoedd), yn benodol 168(4)(b) (mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol lle mai eu prif amcan yw amddiffyn iechyd y cyhoedd)³⁹

Yn ogystal, caiff Erthygl 31 (tariff tollau cyffredin) ei defnyddio ar gyfer mesur sy'n ymwneud â marchnata pysgod; caiff Erthygl 42 (cystadlu o ran cynhyrchu a masnachu cynhyrchion amaethyddol) ac Erthygl 115 (mesurau'r marchnadoedd mewnol sy'n gofyn am unfrydedd) fel sail gyfreithiol i fesurau labelu/cyfansoddiad; mae Erthygl 192(2)(b) (rheoli adnoddau dŵr) yn sail gyfreithiol i ddeddfwriaeth mewn perthynas â dŵr potel, a chaiff Erthygl 207 (polisi masnachol cyffredin) ei defnyddio fel sail gyfreithiol i Reoliad (EC) Rhif 178/2002.

Mae nifer o ddarpariaethau yng nghyfraith bwyd yr UE sy'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau wneud mesurau 'cenedlaethol'. Mae'r DU wedi elwa ar nifer o'r mesurau hyn, gan gynnwys mewn perthynas â mesurau brys, cyflenwi'n uniongyrchol symiau bach o gynhyrchion sylfaenol, mewn perthynas â dulliau traddodiadol o gynhyrchu, prosesu neu ddsbarthu bwyd a gwerthu llaeth crai.

Mae elfennau yn y cymhwysedd hwn, ac eithrio'r rhai sy'n deillio o reolau tollau a chyfyngiadau meintiol nad ydynt yn berthnasol i Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. Mae'r cymhwysedd hwn yn berthnasol i Gibraltar ac eithrio am y rhannau hynny sy'n deillio o Erthygl 114 TFEU sydd â'r bwriad o hybu symud nwyddau'n rhydd.

Darnau pwysig o ddeddfwriaeth yn yr UE

³⁷ Rheoliadau (EC) Rhifau 852/2004, 853/2004 a 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor.

³⁸ Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor.

³⁹ Cyflwynwyd rhagflaenydd Erthygl 168(4)(b) gan Gytuniad Maastricht (fel Erthygl 129) ac fe'i haddaswyd gan Gytuniad Amsterdam (Erthygl 152 yn ddiweddarach) (1997). Caiff deddfwriaeth a wneir o dan Erthygl 168(4)(b) ei mabwysiadu gan ddefnyddio'r weithdrefn ddeddfwriaethol gyffredin.

Mae rhai o'r darnau allweddol o ddeddfwriaeth yn ymwneud â diogelwch bwyd, labelu a safonau cyfansoddiadol wedi'u disgrifio isod; mae rhestr fwy cynhwysfawr o ddarnau pwysig o ddeddfwriaeth yr UE ar gael ar ein gwefan yn www.defra.gov.uk/corporate/about/how/europe/review/.

Gwneir y **Gyfraith Gyffredinol ar Fwyd**, Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 o dan Erthyglau 43, 114, 207 a 168(4)(b). Mae'n amlinellu nifer o egwyddorion cyffredin sy'n berthnasol i gyfraith bwyd (megis yr egwyddor ragofalus a thryloywder), yn amlinellu gofynion diogelwch bwyd a phorthiant (sy'n ei gwneud yn glir bod cyfrifoldeb am fwyd a phorthiant ar y farchnad yn gyfrifoldeb gweithredwyr busnes bwyd a phorthiant) ac mae'n datgan bod yn rhaid bod modd olrhain bwyd ar hyd y gadwyn fwyd ac mae'n rhaid ei dynnu'n ôl neu ei adalw lle bo'n briodol. Mae'n sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac mae'n amlinellu ei swyddogaethau. Mae'n creu system rhybuddio cyflym lle caiff bodolaeth risg bwyd ei drosglwyddo gan Aelod-wladwriaeth i'r Comisiwn a fydd yn ei throsglwyddo'n ddiweddarach i Aelod-wladwriaethau eraill. Mae hefyd yn cynnig darpariaeth i'r Comisiwn (neu Aelod-wladwriaethau), fel mesur dros dro lle mae'r Comisiwn wedi methu â gweithredu) i ddeddfu er mwyn atal gosod bwyd a phorthiant ar y farchnad sy'n debygol o gyflwyno risg ddifrifol i iechyd pobl, iechyd anifeiliaid neu'r amgylchedd. Fel y soniwyd uchod, mae'r Rheoliad hwn hefyd yn dyfynnu Erthygl 207 (polisi masnachol cyffredin) oherwydd y ffordd y mae ei ddarpariaethau mewnforio ac allforio yn effeithio ar fasnach ryngwladol ac yn ei chwmpasu yn ogystal â'r farchnad fewnol.

Mae'r **Pecyn Hylendid Bwyd**; yn cynnwys Rheoliadau (EC) Rhifau 852/2004, 853/2004 a 854/2004. Gwneir Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 o dan Erthyglau 114 a 168(4)(b) a Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 a gwneir Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 yn unol ag Erthygl 168(4)(b). Mae'r pecyn hylendid yn amlinellu rheolau hylendid cyffredinol ar gyfer pob gweithredwr busnes bwyd a rheolau penodol ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd sy'n ymdrin â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. Mae hefyd yn amlinellu rheolau penodol ynghylch trefniadaeth rheolaeth swyddogol ar gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid.

Cwmpesir **Labelu bwyd cyffredinol** ar hyn o bryd gan Gyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a chan y Cyngor ar ddod â chyfreithiau Aelod-wladwriaethau yn ymwneud â labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd at ei gilydd. Fersiwn wedi'i chodio o Gyfarwyddeb 79/112/EC yw'r Gyfarwyddeb hon ar ddod â chyfreithiau Aelod-wladwriaethau at ei gilydd sy'n ymwneud â labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd i'w gwerthu i'r defnyddiwr yn y pen draw. Sail y Cytuniad i Gyfarwyddeb 2000/13/EC yw Erthygl 114 TFEU.

Bydd Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd (Rheoliad 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr) yn disodli Cyfarwyddeb 2000/13/EC. Mae'r Rheoliad hwn, a wnaed o dan Erthygl 114 ac Erthygl 169

TFEU,⁴⁰ yn cyfuno elfennau Cyfarwyddeb 2000/13/EC ar labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd ac mae Cyfarwyddeb 90/496/EC yn ymwneud â labelu maeth ar fwydydd. Bydd y rhan fwyaf o'r rheolau newydd yn berthnasol o 13 Rhagfyr 2014 er bod rhai darpariaethau (yn ymwneud â briwig) a fydd yn berthnasol o 1 Ionawr 2014. Bydd y rhwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth am faeth yn gymwys o 13 Rhagfyr 2016.

Yn ogystal â'r rheolau cyffredinol ar labelu bwyd a ddisgrifiwyd uchod, mae rheolau hefyd yn cwmpasu gofynion penodol yn ymwneud â chyfansoddiad a labelu ar gyfer bwydydd penodol megis dŵr potel a suddion ffrwythau.

Darnau pwysig o ddeddfwriaeth arfaethedig i'r UE

Rhestrir yr eitemau a ganlyn yn yr Atodiad i Raglen Waith y Comisiwn ar gyfer 2013 a chânt eu trafod yn fanylach ym mharagraffau 32 a 33:

- Rheoliad newydd ar Reolaeth Swyddogol (i ddisodli Rheoliad (EC) Rhif 882/2004)
- Adolygu'r ddeddfwriaeth ar y Pecyn Hylendid (Rheoliadau (EC) Rhif 852/2004, 853/2004 a 854/2004)

Gweithredu yn y DU

Mae'r DU wedi rhoi grym cyfreithiol i gyfraith bwyd yr UE drwy wneud offerynnau statudol sy'n darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliadau'r UE a rhoi Cyfarwyddebau'r UE ar waith.

Cyflwynodd deddfwriaeth ddatganoli y pŵer i Gymru a'r Alban wneud eu rheoliadau bwyd eu hunain. Mae Gogledd Iwerddon yn gwneud ei deddfwriaeth ei hun ar fwyd.

Gwnaed offerynnau statudol i roi grym cyfreithiol i gyfraith bwyd yr UE gan ddefnyddio seiliau cyfreithiol domestig megis y pwerau eang ar gyfer gwneud rheoliadau a amlinellir yn adran 16 ac adran 17 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ac adran 2(2) Deddf y Cymunedau Ewropeaidd.

Roedd rhywfaint o gytgord rhwng gyfraith bwyd yr UE sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd a'r gyfraith ddomestig bresennol, ac felly, dim ond mewn achosion eithriadol y bu angen diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Enghraifft o hyn yw'r diwygiad i adran 7 y Ddeddf Diogelwch Bwyd 'wrth ddirnad... p'un a yw unrhyw fwyd yn niweidiol i iechyd, caiff sylw ei roi i [rhan o] Reoliad (EC) Rhif 178/2002'. Roedd yn rhaid gwneud addasiadau mwy helaeth i Ran IV Deddf Amaethyddiaeth 1970 i ddileu gorgyffwrdd â chyfraith yr UE sy'n uniongyrchol berthnasol yn ymwneud â phorthiant anife

⁴⁰ Mae Erthygl 169 TFEU yn datgan y bydd yr UE yn cyfrannu at amddiffyn iechyd, diogelwch a buddiannau economaidd defnyddwyr.

© Hawlfraint y Goron 2012

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, yn unol â thelerau Trwydded y Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at: The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen/y cyhoeddiad hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.defra.gov.uk/corporate/about/how/europe/review/

Dylech anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r ddogfen/y cyhoeddiad atom ni yn:

balanceofcompetences.ahwfs@defra.gsi.gov.uk

PB 13839